# Ymgynghorydd Arts Award: cyfrifoldebau

I fddechrau cyflwyno Arts Award, mae'n rhaid i unigolyn gwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer ymgynghorwyr Arts Award yn foddhaol.

Mae ymgynghorwyr Arts Award yn cefnogi pobl ifanc i weithio tuag at eu dyfarniad ac yn gweithredu fel hwyluswyr/mentoriaid. Ymgynghorwyr yw prif aseswyr gwaith y bobl ifanc ac maen nhw'n gyfrifol am asesu'r gwaith hwnnw gan ddefnyddio'r fframwaith a'r meini prawf asesu sydd wedi'u yn y pecyn cymorth wrth baratoi ar gyfer safoni.

Mae ymgynghorwyr yn gyfrifol am gofrestru eu canolfan ar ôl cwblhau'r hyfforddiant. Gall ymgynghorwyr gofrestru canolfan newydd neu gysylltu eu hunain â chanolfan Arts Award sy'n bodoli eisoes, os oes ganddynt ganiatâd i wneud hynny. Mae gan ymgynghorwyr yr opsiwn i gysylltu eu hunain â mwy nag un ganolfan os ydynt yn cyflwyno Arts Award i wahanol grwpiau o bobl ifanc ar draws mwy nag un sefydliad.

Ymgynghorwyr sy'n gyfrifol am drefnu safoni, gan gysylltu â'r safonwr penodedig a sicrhau bod popeth sydd ei angen ar gyfer y diwrnod safoni ar gael yn unol â thelerau ac amodau Arts Award. Dylai ymgynghorwyr hefyd sicrhau bod manylion pobl ifanc yn cael eu cadarnhau gyda'r ganolfan gofrestredig, bod y manylion hyn yn gywir ac mewn ffurf addas i ymddangos ar dystysgrifau pobl ifanc.

# Manyleb Person: Ymgynghorydd Arts Award

Er mwyn cwrdd â'r gofynion hyfforddi ar gyfer ymgynghorwyr mae rhaid i chi fodloni'r fanyleb person a amlinellir isod:

- Rhaid i chi fod yn o leiaf 18 oed
- Rhaid i chi fod â DBS (Datgeliad Manwl) cyfredol. Er mwyn hyrwyddo arferion da a chan gydnabod y gall ymgynghorwyr Arts Award weithio mewn

lleoliadau 1:1 gyda phobl ifanc, rydym yn gofyn i ymgynghorwyr sicrhau bod ganddynt DBS (Datgeliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) cyfredol. Dylai ymgynghorwyr drafod y trefniadau ar gyfer hyn gyda'r sefydliadau y maen nhw'n gweithio iddo.

- Meddu ar o leiaf tair blynedd o brofiad o weithio gyda phobl ifanc ar sail ran amser neu o leiaf dwy flynedd o brofiad o weithio gyda phobl ifanc ar sail llawn amser.

  **NEU**:

  - Gall athrawon gynnig eu cymhwyster neu ddiploma dysgu
  - Yn aml, bydd gan ddarlithwyr a hyfforddwyr ddyfarniad hyfforddwr oedolion City and Guilds Lefel 3
  - Yn aml, bydd gan weithwyr ieuenctid NVQ Lefel 3 mewn gwaith ieuenctid

- Meddu ar sgiliau llythrennedd digonol i ddeall gofynion meysydd llafur a meini prawf asesu, i gynnal asesiadau ysgrifenedig* ac i ddatblygu deunyddiau cymorth ar gyfer pobl ifanc pan fo'n briodol

- Meddu ar brofiad perthnasol o asesu gwybodaeth yn erbyn set benodol o feini prawf. Gallai'r profiad hwnnw fod yn wahanol ar draws sectorau a lleoliadau a gallai gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
  - asesu cymwysterau cydnabyddedig
  - asesu rhaglenni dysgu anffurfiol (lle mae darparwyr yn asesu cyflawniad pobl ifanc yn erbyn cerrig milltir cytunedig)
  - paratoi deunyddiau ar gyfer sefydliadau neu gyrff allanol megis Ofsted, Artsmark, marciau ansawdd neu ddilysiad allanol
  - paratoi ceisiadau am gyllid neu gomisiynu

** gellir datblygu asesiadau ysgrifenedig gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol neu ffurfiau eraill o gyfathrebu hygyrch*

**Yn bwysicaf na dim, bydd gan ymgynghorwyr Arts Award y gallu i gyfathrebu'n dda gyda phobl ifanc. Dylent hefyd fedru:**

- Creu amgylchedd cynnes, diogel, a chroesawgar; a datblygu perthynas gadarnhaol gyda phobl ifanc
- Cynhyrchu cyfleoedd i bobl ifanc archwilio eu creadigrwydd
- Cynnig cefnogaeth a gwybodaeth berthnasol i bobl ifanc
- Cyfathrebu'n dda ar sail un i un ac mewn lleoliadau grŵp
- Cynnig sgiliau rhyngbersonol a threfnu da
- Meddu ar brofiad perthnasol o weithio gyda phlant a/neu bobl ifanc

**Dylai ymgynghorwyr Arts Award feddu ar y profiad, y sgiliau a'r gallu i:**

- Cwblhau'r hyfforddiant ar gyfer ymgynghorwyr Arts Award yn llwyddiannus
- Cynllunio, datblygu a gwerthuso cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau celfyddydol perthnasol
- Cefnogi pobl ifanc i gofnodi a chasglu tystiolaeth o'u gweithgareddau, eu profiadau, eu hymatebion a'u myfyrdodau mewn ystod o ffurfiau sy'n briodol iddyn nhw a'r lefel y maen nhw'n gweithio arni
- Asesu cynnydd pobl ifanc yn ffurfiol a chynnig adborth sy'n dangos:
    - Dealltwriaeth o feini prawf asesu a gofynion tystiolaeth Arts Award trwy gwblhau hyfforddiant ar gyfer ymgynghorwyr Arts Award ar y lefel(au) perthnasol.
    - Bod penderfyniadau asesu ar gyflawni Arts Award yn cael eu gwneud yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd cyn i'r asesiad gael ei safoni gan Goleg y Drindod Llundain.
    - Defnyddio adborth a ddarparwyd gan y broses safoni i lywio cyflwyniad Arts Award yn y dyfodol.

# Cwblhau’r hyfforddiant ar gyfer ymgynghorwyr Arts Award yn llwyddiannus

---

Yn ystod yr hyfforddiant, bydd yr hyfforddwr yn asesu eich gallu i gyflwyno Arts Award cyn rhoi statws ymgynghorydd i chi.

Bydd hyn yn cynnwys gwirio a oes gennych ddealltwriaeth glir o feini prawf asesu a gofynion tystiolaeth y wobr ac a allwch chi gynnal asesiadau o waith pobl ifanc yn annibynnol gan ddefnyddio’r meini prawf asesu sydd wedi’u cynnwys yn y pecyn cymorth Arts Award.

Bydd yr hyfforddwr hefyd yn gwirio a ydych chi'n dangos dealltwriaeth o egwyddorion ac arfer Arts Award, a'ch rôl fel ymgynghorydd sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i gael ymatebion personol, gwneud dewisiadau personol, a chynllunio eu dysgu, yn dibynnu ar y lefel maen nhw’n gweithio arni.

Bydd yr hyfforddwr yn gwirio bod gennych ddealltwriaeth o bwysigrwydd y cyfarwyddiadau gweithredu sydd wedi’u cynnwys ym mhecyn cymorth Arts Award, a'r broses ar gyfer trefnu i’ch asesiadau gael eu safoni.

Bydd yr hyfforddwr yn sicrhau eich bod yn gwybod sut ac o ble i gael cymorth, adnoddau ac arweiniad pellach ynglŷn â'ch rôl fel ymgynghorydd ar ôl y diwrnod hyfforddi.